



Meysydd Dysgu a Phrofiad

Areas of Learning and Experience



Expressive Arts



Health and Well-being



Humanities



Languages, Literacy and Communication



Mathematics and Numeracy



Science and Technology

Bydd y cwricwlwm newydd yn cynnwys **chwe** 'Maes Dysgu a Phrofiad'. Nid yw hyn yn golygu bod pynciau traddodiadol yn diflannu, ond yn hytrach maent wedi'u cyfuno i gwmpasu pynciau a disgyblaethau sy'n bodoli eisoes, gyda'r bwriad o hyrwyddo cydweithio, datblygu a dylunio cwricwlwm ar lefel ysgol drawsddisgyblaethol.

The new curriculum will consist of **six** 'Areas of Learning and Experience'. This doesn't mean that traditional subjects are disappearing, but rather combined to encompass existing subjects and disciplines, and are intended to promote collaboration and cross-disciplinary school-level curriculum development and design.

Y chwe Maes Dysgu a Phrofiad yw:

The six Areas of Learning and Experience are:

****cliciwch ar y pennawdau i fynd a chi at wefan Llywodraeth Cymru ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad***

**click on the headings to take you to the Welsh Government website for each Area of Learning*

[Y Celfyddydau Mynegiannol](#)*: Yn ymgorffori celf, dawns, drama, cerddoriaeth a chyfryngau digidol. Mae'n annog creadigrwydd, meddwl beirniadol a pherfformiad.

[Expressive Arts](#)*: Incorporates art, dance, drama, music and digital media. It encourages creativity, critical thinking and performance.

[Y Dyniaethau](#)*: Yn ymgorffori daearyddiaeth, hanes, addysg grefyddol, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Bydd yn seiliedig ar brofiadau dynol a bydd hefyd yn cwmpasu diwylliant a hunaniaeth Cymru.

[Humanities](#)*: Incorporates geography, history, religious education, business studies and social studies. It will be based on human experiences and will also cover Welsh culture and identity.

[Iechyd a Lles*](#): Yn ymgorffori agweddau corfforol, emosiynol a chymdeithasol ar fywyd. Bydd yn helpu disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles a sut i reoli dylanwadau cymdeithasol.

[Health and Wellbeing*](#): Incorporates physical, emotional and social aspects of life. It will help pupils to make informed decisions about their health and wellbeing and how to manage social influences.

[Gwyddoniaeth a Thechnoleg*](#): Yn ymgorffori bioleg, cemeg, ffiseg, cyfrifiadureg a thechnoleg dylunio.

[Science and Technology*](#): Incorporates biology, chemistry, physics, computer science and design technology.

[Mathemateg a Rhifedd*](#): Yn ogystal â mathemateg, mae hyn yn cynnwys rhifedd sef cymhwyso mathemateg i ddatrys problemau yng nghyd-destunau'r byd go iawn.

[Mathematics and Numeracy*](#): As well as mathematics, this includes numeracy which is the application of maths to solve problems in real world contexts.

[Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu*](#): Bydd hyn yn cynnwys iaith a llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg yn ogystal ag ieithoedd rhyngwladol ac iaith Arwyddion Prydeinig.

[Languages, Literacy and Communication*](#): This will include Welsh and English language and literature as well international languages and British Sign Language.

Bydd tri 'chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd' hefyd - llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, a fydd yn cael eu hymgorffori ym mhob un o feysydd y cwricwlwm.

There will also be three 'Cross-curricular responsibilities' - literacy, numeracy and digital competence, which will be embedded throughout all curriculum areas.